OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2699 (Cy.231) (C.92)

COMISIYNYDD POBL HŶN, CYMRU

Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006

Wedi'i wneud - - 10 Hydref 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 23 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Diwrnod Penodedig

2. 14 Hydref 2006 yw'r diwrnod penodedig i adrannau 1 i 22 o'r Ddeddf ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
10 Hydref 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2006 p.30.
(**2**) 1998 p.38.